**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Nos Fawrth 16 Ebrill 2024**

**Yn bresennol:** Cyng. Celfyn Furlong – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas, Gareth Thomas, a Dyfed Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Cynghorydd Sir Ken Taylor
Mai Owen – Clerc / SAC

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Siân Enfys Jones, Lowri Owen.
2. **Datganiad o Ddiddordeb** – Cyng. K. Taylor - yn datgan diddordeb personol yn y materion cynllunio gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn datgan diddordeb personol yn eitem 4.3 Neuadd y Pentref Caergeiliog.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 19 Mawrth 2024 fel rhai cywir. (Cynnig Cyng. E.W. Thomas, eilio Cyng. S. Parry.)

4. **Materion yn codi o'r munudau.**

4.1 Cae Chwarae: Roedd GMS wedi torri'r glaswellt - dim byd pellach i'w adrodd.

4.2 Diffibriliwr – Cyng. Gwilym Jones a Gareth Thomas yn cwrdd â swyddogion o CSYM i drafod yr opsiynau dydd Gwener 19 Ebrill.

4.3 Neuadd y Pentref: Bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn cyfarfod gyda cyfreithiwr o gwmni T. R. Evans Hughes ar 26 Ebrill 2024.

4.4 Parc Solar Traffwll – Nodwyd bod wyneb y ffordd ger yr is-orsaf wedi ei adael mewn cyflwr gwael, dywedodd Cyng. Gwilym O. Jones mai arwyneb dros dro oedd hwn gan fod angen gwneud rhagor o waith yno.

4.5 Adnewyddu Rhedfa Camp Fali – Dywedodd Cyng. Sharon Parry mai ychydig iawn o'r trigolion lleol oedd wedi cael gwybod am y cyfarfod cyhoeddus yn Eglwys Sant Mihangel, Llanfihangel yn Nhowyn ar 20.3.2024. Nodwyd bydd y gwaith adnewyddu yn cymryd tua 18 mis a byddai'r lorïau yn defnyddio Lôn Cymyran yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd tracwyr a chamerâu wedi ei gosod arnynt felly dylai fod yn hawdd monitro eu cyflymder ac ati. Bydd cyfarfod pellach yn cael ei drefnu i ddiweddaru trigolion ymhen 6 mis.

4.6 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion: dim

5. **Penderfyniadau Cynllunio:-**

5.1 LUE/2023/22 Parc Carafanau Trewan Sands, Rhosneigr – cyfreithiol. Cofrestr Gyhoeddus / Cofrestr Gyhoeddus

5.2 FPL/2023/221 Llain Bont, Llanfair yn Neubwll - Caniatâd.
Cofrestr Gyhoeddus / Cofrestr Gyhoeddus

**6. Ceisiadau Cynllunio - dim**

**7. Materion Ariannol**

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.3.2024 i 31.3.2024 ynghyd â chymodion banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £ 32,131.98, Cyfrif Cadw £4002.75.

7.1 Cyfrifon.
Cytunwyd y byddai Cyng. Dyfed Williams yn craffu ar y cyfrifon cyn iddynt gael eu rhoi i'r archwilydd mewnol.

**8.** Taliadau: wedi'u nodi / cytuno.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Mawrth) | £423.84 | Gwasanaethau GMS | £90 |
| Vision ICT | £185.26 | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

9.1 Mynediad i Draeth Cymyran.

9.2 Amserlen Camau Cyn Etholiad

9.3 Effaith newid cyfyngiadau cyflymder 20mya yn eich ardal

9.4 Mae angen ID ffotograffig ar drigolion Ynys Môn i bleidleisio ym mis Mai

9.5 Gweithdy Cynllun Rheoli Cyrchfan

9.6 Gweminar Cyflwyniad i Seiberddiogelwch ar gyfer Cynghorau Tref

9.7 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Mawrth 2024

9.8 Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol

9.9 Gwasanaeth Tân ac Achub - Lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar barhau i atal ac ymateb i argyfyngau

**10. Adroddiadau Aelodau**.

10.1 Hysbysodd Cyng. William Victor Owen y Cyngor bod rhagor o waith archeolegol wedi dechrau yn Llyn Cerrig Bach.

**11. Cyfarfod nesaf 21 Mai 2024.**

: